# Freedom of Information Act 2000 (FOIA)

## Decision notice

**Date:** 31 January 2017

**Public Authority:** Welsh Government
**Address:** Cathays Park
Cardiff
CF10 3NQ

## Decision (including any steps ordered)

1. The complainant requested information relating to an agreement between the Welsh Government and Bangor University regarding the development and maintenance of the Termiadur Addysg, a Welsh language terminology resource. He also requested a complete copy of the Termiadur Addysg. The complaint to the Commissioner concerns the request for a copy of the Termiadur Addysg. The Commissioner's decision is that the Welsh Government does not hold the information itself, nor is it held by Bangor University on behalf of the Welsh Government in accordance with section 3(2)(b) of the FOIA. However, the Welsh Government breached section 10 of the FOIA in failing to comply with section 1 within the statutory time for compliance. The Commissioner does not require any steps to be taken.

## Request and response

2. On 25 February 2016 the complainant wrote to the Welsh Government and requested information in the following terms:

   "O dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, gofynnaf am gopi o gytundeb rhwng Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru a Phrifysgol Bangor ynglŷn â chynnal a datblygu'r Termiadur Addysg. Yn ychwanegol gofynnaf am gopi o bob cais grant o'r Gronfa Technoleg a Chyfryngau Digidol Cymraeg, copi o'r marciau ynghyd ag amodau'r cyllid.

   Yn ail, yn unol â Rheoliadau Ailddefnyddio Gwybodaeth Sector Cyhoeddus 2015 gofynnaf am gopi cyflawn, fel ffeil CSV, o'r Termiadur

Addysg dan drwydded addas. Nid yw Canolfan Bedwyr yn caniatáu mynediad addas i'r gwaith yma, ac felly gofynnaf am well mynediad i'r gwaith a greuwyd gan/dan nawdd y Sector Gyhoeddus".

(Under the Freedom of Information Act, I request a copy of an agreement between the Welsh Government Department for Education and Skills and Bangor University regarding the maintenance and development of the Termiadur Addysg. In addition I request a copy of all applications for a grant from the Welsh-language Technology and Digital Media Fund, a copy of the marks together with the conditions for funding.

Secondly, in accordance with the Re-use of Public Sector Information Regulations 2015 I request a complete copy, as a CSV file, of the Termiadur Addysg under a suitable license. Canolfan Bedwyr does not allow suitable access to this work, and so I request better access to the work created by/with the support of the Public Sector).

3. The Welsh Government responded on 24 March 2016 and provided some information relevant to the request, stated it did not hold a CSV file of the contents of the Termiadur Addysg under a suitable licence, and withheld some information under section 43 of the FOIA.

4. On 28 March 2016 the complainant wrote to the Welsh Government and requested an internal review of its handling of the request.

5. The Welsh Government responded on 26 April 2016 and provided some additional information contained within the grant applications, but maintained that other information contained within the documents was exempt under section 43 of the FOIA. The Welsh Government also maintained that it did not hold a CSV file of the contents of the Termiadur Addysg under a suitable licence.

## Scope of the case

6. The complainant contacted the Commissioner on 27 April 2016 to complain about the way his request for information had been handled. He specifically asked the Commissioner to consider the Welsh Government's handling of his request for a complete copy of the Termiadur Addysg.

7. The Commissioner considers the scope of her investigation to be to determine if the information is held either directly by the Welsh Government or on its behalf by another person (Bangor University).

## Reasons for decision

### Section 3(2) – information held by a public authority

8. Section 1 of the FOIA states that any person making a request for information is entitled to be told whether the public authority holds the information requested and, if held, to be provided with it.

9. Section 3(2) sets out the criteria for establishing if information is held for the purposes of the FOIA:

*"For the purposes of this Act, information is held by a public authority if –*

*(a) it is held by the authority, otherwise than on behalf of another person, or*

*(b) it is held by another person on behalf of the authority."*

10. The issue for the Commissioner to determine is whether the Welsh Government holds the requested information and, if not, whether it is held by another person ie Bangor University ('BU') on its behalf.

*The Welsh Government's position*

11. The Welsh Government explained that BU is a recipient of a Welsh Language Terminology Grant to "further develop a service that provides up to date, standardised Welsh language terminology supporting all aspects of Welsh-medium provision in schools and colleges". The terminology ('information') is available via the website www.termiaduraddysg.org to all users. Underpinning the grant is a grant funding award letter, a copy of which was disclosed to the complainant in response to his request. A copy has also been published on the Welsh Government's disclosure log[1].

12. In terms of searches that were undertaken to identify whether the information requested was held, the Welsh Government advised that, on receipt of the request, officials reviewed the grant award letter with BU and considered the situation regarding ownership of the information in question. In addition files which hold information about grant monitoring meetings with BU were also reviewed. The Welsh Government confirmed that within the documentation reviewed there was no reference to it

[1] http://gov.wales/docs/decisions/2016/welsh/160422atisn10237doc01.pdf

holding or ever having received a physical CSV file of the Termiadur Addysg. The team involved in commissioning and monitoring the Termiadur also confirmed that it did not hold a CSV file (or other electronic format) of the information, had no reason to obtain one previously and did not have the required access to the data electronically nor the skills/ability to supply a CSV file (or any other format). The Welsh Government also confirmed that it does not have any business need to hold the information in question.

13. The terms of the grant state that ownership of the Termiadur Addysg rests with BU (paragraph 13(a) of the grant offer letter). The grant conditions do not indicate that the information generated by BU is held by, or on behalf of the Welsh Government. No arrangements are in place for the Welsh Government to retrieve/access the information in the event of a request for information being made for it and the Welsh Government has not obtained a copy of the information by any other means.

14. The grant funding letter includes provisions for monitoring purposes (paragraph 10 – Monitoring Requirements) and audit purposes (paragraph 11 – Audit Requirements). However, these provisions relate to accounting requirements in respect of the grant and access to information to allow the Welsh Government to monitor compliance with the funding conditions, rather than access to the Termiadur Addysg itself.

15. The Welsh Government monitors progress against grant agreement purposes and the schedule via regular meetings with BU. The purposes and schedule are referred to within the grant letter. The meetings also provide an opportunity to discuss and share general information about developments and issues in the field of Welsh terminology which would be of interest to both parties.

16. The Welsh Government confirmed that BU makes its own decisions on creating, retaining, altering and deleting content of the Termiadur Addysg and is also responsible for handling enquiries about the information. The Welsh Government does not access the data files nor does it influence any decisions made regarding the standardised terminology content.

*The complainant's position*

17. In his internal review request, the complainant stated "nodaf fod wybodaeth dan ofal trydydd parti ar eich rhan dal yn wybodaeth yr ydych yn dal yn ôl y gyfraith" (I note that in law information in the care of a third party on your behalf remains information held by you). In his complaint to the Commissioner, the complainant acknowledged the issue

of copyright, however, he considers that "nid yw hyn yn berthnasol nac yn cymryd blaenoriaeth dros gyfraith statud, yn benodol ailddefnydd o wybodaeth gyhoeddus" (this is not relevant and neither does it take precedence over the law of statute, particularly the reuse of public information).

18. In his original request for information the complainant stated that his request for a complete copy of the Termiadur Addysg was being made "yn unol â Rheoliadau Ailddefnyddio Gwybodaeth Sector Cyhoeddus 2015" (in accordance with the Re-use of Public Sector Information Regulations 2015) ('RPSI'). The Commissioner explained to the complainant that RPSI is about permitting re-use of information and how it is made available and is not about accessing information, which is dealt with under other information access legislation such as the FOIA.

19. RPSI only applies to public sector information which means information that a public authority produces as part of its public task. 'Public task' means an authority's core role and functions, as defined in legislation or established through custom and practice. RPSI does not apply to information that would be exempt from disclosure under the relevant different information access legislation such as the Data Protection Act, the FOIA and the Environmental Information Regulations. RPSI also does not apply to recorded information an authority holds if someone else holds the intellectual property rights (eg copyright or database right). An authority can only permit re-use if it holds the intellectual property rights in the information.

20. In light of the above and the Welsh Government's position that it does not hold the information in question, the Commissioner explained to the complainant that her role in this case is to establish whether the requested information is held by the Welsh Government, or held by a third party on its behalf.

*The Commissioner's position*

21. In determining whether the information is held by an organisation on behalf on a public authority the Commissioner makes her decision based on the specifics of the case and a number of aspects such as:

- The relationship between the two parties
- Whether the public authority has access to the information
- Whether the public authority has a degree of control over the information

22. The Commissioner is aware of a number of circumstances in which it is generally accepted that information is held by another person on behalf

of a public authority. These include situations where there is a contractual arrangement and where public authorities are working in partnership arrangements. The Commissioner does not consider any of these situations to be the case here. The relationship between the parties in this case relates primarily to a funding agreement and monitoring of compliance with the associated funding conditions.

23. It is evident from the Welsh Government's submissions that it does not have access to the requested information, and that the relationship between the two parties does not afford the Welsh Government any control over the information. The Commissioner considers this key to her decision because 'another person' is only considered to hold information on behalf of a public authority where the public authority is able to access or has a degree of control over the information.

24. Finally, the grant funding letter between the Welsh Government and BU does not contain any provisions which allow the Welsh Government access to the information requested ie a complete copy of Termiadur Addysg. The provisions within the agreement only refer to access to information to enable the Welsh Government to monitor compliance with the grant funding conditions ie accounting, income and expenditure type information.

25. Based on the evidence available and the representations provided by the Welsh Government the Commissioner is satisfied that the Welsh Government does not hold the requested information itself, and it is not held by BU on behalf of the Welsh Government.

**Section 10 – time for compliance**

26. Section 1 of FOIA provides for a general right of access to information held by public authorities. Section 10(1) provides that a public authority must comply with section 1 promptly and in any event not later than the twentieth working day following the date of receipt of a request for information.

In this case the complainant submitted his request for information 25 February 2016. The Welsh Government responded within the statutory timescale on 24 March 2016 and provided some information relevant to the request, and withheld other information under section 43 of the FOIA. In its internal review response of 26 April 2016, the Welsh Government acknowledged that it had incorrectly withheld some information contained within the grant applications under section 43 and disclosed it to the complainant. In failing to comply fully with section 1(1)(b) within the required timescale the Welsh Government breached section 10(1) of the FOIA.

## Right of appeal

27. Either party has the right to appeal against this decision notice to the First-tier Tribunal (Information Rights). Information about the appeals process may be obtained from:

    First-tier Tribunal (Information Rights)
    GRC & GRP Tribunals,
    PO Box 9300,
    LEICESTER,
    LE1 8DJ

    Tel: 0300 1234504
    Fax: 0870 739 5836
    Email: GRC@hmcts.gsi.gov.uk
    Website: www.justice.gov.uk/tribunals/general-regulatory-chamber

28. If you wish to appeal against a decision notice, you can obtain information on how to appeal along with the relevant forms from the Information Tribunal website.

29. Any Notice of Appeal should be served on the Tribunal within 28 (calendar) days of the date on which this decision notice is sent.

**Signed ………………………………………………**

**Andrew White**
**Group Manager**
**Information Commissioner's Office**
**Wycliffe House**
**Water Lane**
**Wilmslow**
**Cheshire**
**SK9 5AF**

# Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (y Ddeddf)

## Hysbysiad penderfynu

**Dyddiad:** **31 Ionawr 2017**

**Yr Awdurdod Cyhoeddus:** **Llywodraeth Cymru**
**Cyfeiriad:** **Parc Cathays**
**Caerdydd**
**CF10 3NQ**

### Y penderfyniad (gan gynnwys unrhyw gamau y gorchmynnir eu cymryd)

1. Gofynnodd yr achwynydd am wybodaeth ynghylch cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Phrifysgol Bangor ynglŷn â datblygu a chynnal y Termiadur Addysg, sy'n adnodd terminoleg Cymraeg. Gofynnodd hefyd am gopi cyflawn o'r Termiadur Addysg. Mae'r gŵyn i'r Comisiynydd yn ymwneud â'r cais am gopi o'r Termiadur Addysg. Penderfyniad y Comisiynydd yw nad yw'r wybodaeth yn cael ei dal gan Lywodraeth Cymru ei hun, ac nad yw'n cael ei dal gan Brifysgol Bangor ychwaith ar ran Llywodraeth Cymru yn unol ag adran 3(2)(b) o'r Ddeddf. Er hynny, fe dorrodd Llywodraeth Cymru adran 10 o'r Ddeddf drwy fethu cydymffurfio ag adran 1 o fewn yr amser statudol ar gyfer cydymffurfio. Nid yw'r Comisiynydd yn gofyn i unrhyw gamau gael eu cymryd.

### Y cais a'r ymateb

2. Ar 25 Chwefror 2016 ysgrifennodd yr achwynydd at Lywodraeth Cymru gan ofyn am wybodaeth yn y termau a ganlyn:

   "O dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, gofynnaf am gopi o gytundeb rhwng Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru a Phrifysgol Bangor ynglŷn â chynnal a datblygu'r Termiadur Addysg. Yn ychwanegol gofynnaf am gopi o bob cais grant o'r Gronfa Technoleg a Chyfryngau Digidol Cymraeg, copi o'r marciau ynghyd ag amodau'r cyllid.

Yn ail, yn unol â Rheoliadau Ailddefnyddio Gwybodaeth Sector Cyhoeddus 2015 gofynnaf am gopi cyflawn, fel ffeil CSV, o'r Termiadur Addysg dan drwydded addas. Nid yw Canolfan Bedwyr yn caniatáu mynediad addas i'r gwaith yma, ac felly gofynnaf am well mynediad i'r gwaith a greuwyd gan/dan nawdd y Sector Gyhoeddus".

3. Ymatebodd Llywodraeth Cymru ar 24 Mawrth 2016 gan roi rhywfaint o wybodaeth a oedd yn berthnasol i'r cais, gan ddweud nad oedd ganddi ffeil CSV o gynnwys y Termiadur Addysg o dan drwydded addas, a chan gadw rhywfaint o wybodaeth yn ôl o dan adran 43 o'r Ddeddf.

4. Ar 28 Mawrth 2016 ysgrifennodd yr achwynydd at Lywodraeth Cymru gan ofyn am adolygiad mewnol o'r modd yr ymdriniwyd â'r cais.

5. Ymatebodd Llywodraeth Cymru ar 26 Ebrill 2016 gan roi rhywfaint o wybodaeth ychwanegol a geid yn y ceisiadau am grant, ond gan ddal bod gwybodaeth arall yn y dogfennau'n esempt o dan adran 43 o'r Ddeddf. Daliai Llywodraeth Cymru hefyd nad oedd ganddi ffeil CSV o gynnwys y Termiadur Addysg o dan drwydded addas.

## Rhychwant yr achos

6. Cysylltodd yr achwynydd â'r Comisiynydd ar 27 Ebrill 2016 i gwyno am y modd yr ymdriniwyd â'i gais am wybodaeth. Yn benodol, gofynnodd i'r Comisiynydd ystyried sut yr ymdriniodd Llywodraeth Cymru â'i gais am gopi cyflawn o'r Termiadur Addysg.

7. Ym marn y Comisiynydd, rhychwant ei hymchwiliad yw penderfynu a yw'r wybodaeth yn cael ei dal naill ai'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru neu ar ei rhan gan berson arall (Prifysgol Bangor).

## Y rhesymau dros y penderfyniad

### Adran 3(2) – gwybodaeth sy'n cael ei dal gan awdurdod cyhoeddus

8. Mae adran 1 o'r Ddeddf yn dweud bod gan unrhyw berson sy'n gwneud cais am wybodaeth hawl i gael gwybod a yw'r wybodaeth yn cael ei dal gan yr awdurdod cyhoeddus ac, os yw'r wybodaeth yn cael ei dal, i gael yr wybodaeth honno.

9. Mae adran 3(2) yn nodi'r meini prawf ynglŷn â sefydlu a yw gwybodaeth yn cael ei dal, at ddibenion y Ddeddf:

*"For the purposes of this Act, information is held by a public authority if –*

> *(a) it is held by the authority, otherwise than on behalf of another person, or*
>
> *(b) it is held by another person on behalf of the authority."*

10. Y mater i'r Comisiynydd benderfynu arno yw a yw'r wybodaeth y gofynnwyd amdani yn cael ei dal gan Lywodraeth Cymru ac, os nad yw, a yw'n cael ei dal gan berson arall, sef Prifysgol Bangor, ar ei rhan.

*Safbwynt Llywodraeth Cymru*

11. Esboniodd Llywodraeth Cymru fod Prifysgol Bangor wedi cael Grant Terminoleg Gymraeg er mwyn "further develop a service that provides up to date, standardised Welsh language terminology supporting all aspects of Welsh-medium provision in schools and colleges" (datblygu ymhellach wasanaeth sy'n darparu terminoleg Gymraeg safonedig a chyfoes sy'n cefnogi pob agwedd ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion a cholegau). Mae'r derminoleg ('yr wybodaeth') ar gael drwy'r wefan www.termiaduraddysg.org i bob defnyddiwr. Mae'r grant wedi'i seilio ar lythyr dyfarnu cyllid grant, y cafodd copi ohono ei ddatgelu i'r achwynydd mewn ymateb i'w gais. Mae copi wedi'i gyhoeddi hefyd ar log datgeliadau Llywodraeth Cymru.[2]

12. O ran chwiliadau a wnaed er mwyn gweld a oedd yr wybodaeth y gofynnwyd amdani ganddi, dywedodd Llywodraeth Cymru fod swyddogion wedi mynd ati, ar ôl cael y cais, i adolygu'r llythyr dyfarnu grant gyda Phrifysgol Bangor ac ystyried y sefyllfa o ran perchnogaeth yr wybodaeth o dan sylw. Adolygwyd hefyd ffeiliau sy'n cynnwys gwybodaeth am gyfarfodydd monitro grant gyda Phrifysgol Bangor. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru nad oedd cyfeiriad yn y dogfennau a adolygwyd yn sôn bod ffeil CSV ffisegol o'r Termiadur Addysg wedi bod ganddi neu wedi dod i'w llaw erioed. Cadarnhaodd y tîm a fu'n ymwneud â chomisiynu a monitro'r Termiadur hefyd nad oedd ganddynt ffeil CSV (na fformat electronig arall) o'r wybodaeth, nad oedd ganddynt reswm i sicrhau un o'r blaen ac nad oedd ganddynt mo'r mynediad angenrheidiol i gyrchu'r data'n electronig na'r sgiliau/gallu i gyflenwi ffeil CSV (nac unrhyw fformat arall). Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru hefyd nad oes arni angen busnes i fod â'r wybodaeth o dan sylw.

[2] http://gov.wales/docs/decisions/2016/welsh/160422atisn10237doc01.pdf

13. Mae telerau'r grant yn dweud mai Prifysgol Bangor yw perchennog y Termiadur Addysg (paragraff 13(a) o'r llythyr cynnig grant). Nid yw amodau'r grant yn nodi bod yr wybodaeth a gynhyrchir gan Brifysgol Bangor yn cael ei dal gan neu ar ran Llywodraeth Cymru. Nid oes trefniadau i Lywodraeth Cymru adfer/cyrchu'r wybodaeth os gwneir cais am wybodaeth ac nid yw Llywodraeth Cymru wedi sicrhau copi o'r wybodaeth drwy unrhyw fodd arall.

14. Mae'r llythyr cyllid grant yn cynnwys darpariaethau at ddibenion monitro (paragraff 10 – Gofynion Monitro) a dibenion archwilio (paragraff 11 – Gofynion Archwilio). Er hynny, mae'r darpariaethau hyn yn ymwneud â gofynion cyfrifydda ynglŷn â'r grant a gweld gwybodaeth i ganiatáu i Lywodraeth Cymru fonitro'r gydymffurfiaeth ag amodau'r cyllid, yn hytrach na gweld y Termiadur Addysg ei hun.

15. Mae Llywodraeth Cymru'n monitro cynnydd yn erbyn dibenion cytundeb y grant a'r amserlen drwy gyfarfod yn rheolaidd â Phrifysgol Bangor. Cyfeirir at y dibenion a'r amserlen yn y llythyr grant. Mae'r cyfarfodydd yn gyfle hefyd i drafod ac i rannu gwybodaeth gyffredinol am ddatblygiadau a materion ym maes terminoleg y Gymraeg a fyddai o ddiddordeb i'r ddau barti.

16. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru fod Prifysgol Bangor yn gwneud ei phenderfyniadau ei hun ynghylch creu, cadw, addasu a dileu cynnwys y Termiadur Addysg ac mai hi hefyd sy'n gyfrifol am ymdrin ag ymholiadau am yr wybodaeth. Nid yw Llywodraeth Cymru'n cyrchu'r ffeiliau data nac yn dylanwadu ar unrhyw benderfyniadau ynglŷn â chynnwys y derminoleg safonedig.

*Safbwynt yr achwynydd*

17. Yn ei gais am adolygiad mewnol, dywedodd yr achwynydd "nodaf fod wybodaeth dan ofal trydydd parti ar eich rhan dal yn wybodaeth yr ydych yn dal yn ôl y gyfraith". Yn ei gŵyn i'r Comisiynydd, mae'r achwynydd yn cydnabod cwestiwn hawlfraint ond mae o'r farn "nid yw hyn yn berthnasol nac yn cymryd blaenoriaeth dros gyfraith statud, yn benodol ailddefnydd o wybodaeth gyhoeddus".

18. Yn ei gais gwreiddiol am wybodaeth dywedodd yr achwynydd fod ei gais am gopi cyflawn o'r Termiadur Addysg yn cael ei wneud "yn unol â Rheoliadau Ailddefnyddio Gwybodaeth Sector Cyhoeddus 2015" ('RPSI'). Esboniodd y Comisiynydd i'r achwynydd fod yr RPSI yn ymwneud â chaniatáu ailddefnyddio gwybodaeth a sut y trefnir bod gwybodaeth ar gael ac nad yw'n ymwneud â gweld gwybodaeth, yr ymdrinnir ag ef o dan ddeddfwriaeth arall ynghylch gweld gwybodaeth megis y Ddeddf.

19. Dim ond i wybodaeth y sector cyhoeddus y mae'r RPSI yn gymwys, sef gwybodaeth y bydd awdurdod cyhoeddus yn ei llunio fel rhan o'i dasg gyhoeddus. Ystyr 'tasg gyhoeddus' yw rôl a swyddogaethau craidd yr awdurdod, fel y'u diffinnir mewn deddfwriaeth neu fel y'u sefydlir drwy arfer. Nid yw'r RPSI yn gymwys i wybodaeth a fyddai'n esempt rhag cael ei datgelu o dan y gwahanol ddeddfau perthnasol ynghylch gweld gwybodaeth megis y Ddeddf Diogelu Data, y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol. Nid yw'r RPSI yn gymwys ychwaith i wybodaeth wedi'i chofnodi sydd gan awdurdod os yw'r hawliau eiddo deallusol yn perthyn i rywun arall (e.e. hawlfraint neu hawl dros gronfa ddata). Dim ond os oes ganddo hawliau eiddo deallusol dros yr wybodaeth y caiff awdurdod ganiatáu iddi gael ei hailddefnyddio.

20. Yng ngoleuni'r uchod a safbwynt Llywodraeth Cymru nad yw'n dal yr wybodaeth o dan sylw, esboniodd y Comisiynydd i'r achwynydd mai ei rôl hi yn yr achos hwn yw sefydlu a yw'r wybodaeth y gofynnwyd amdani'n cael ei dal gan Lywodraeth Cymru, neu'n cael ei dal gan drydydd parti ar ran Llywodraeth Cymru.

*Safbwynt y Comisiynydd*

21. Wrth benderfynu a yw gwybodaeth yn cael ei dal gan sefydliad ar ran awdurdod cyhoeddus mae'r Comisiynydd yn gwneud ei phenderfyniad ar sail manylion yr achos a nifer o agweddau megis:

- y berthynas rhwng y ddau barti
- a yw'r awdurdod cyhoeddus yn cael gweld yr wybodaeth
- a oes gan yr awdurdod cyhoeddus fesur o reolaeth dros yr wybodaeth.

22. Mae'r Comisiynydd yn ymwybodol o nifer o amgylchiadau lle derbynnir yn gyffredinol fod gwybodaeth yn cael ei dal gan berson arall ar ran awdurdod cyhoeddus. Mae'r rhain yn cynnwys sefyllfaoedd lle ceir trefniant contract a lle mae'r awdurdodau cyhoeddus yn gweithio mewn trefniadau partneriaeth. Nid yw'r Comisiynydd o'r farn bod unrhyw un o'r sefyllfaoedd hyn yn wir yma. Mae'r berthynas rhwng y partïon yn yr achos hwn yn ymwneud yn bennaf â chytundeb cyllido a monitro'r gydymffurfiaeth â'r amodau cyllido perthynol.

23. Mae'n amlwg o sylwadau Llywodraeth Cymru nad oes ganddi fynediad i'r wybodaeth y gofynnwyd amdani, ac nad yw'r berthynas rhwng y ddau barti'n cynnig unrhyw reolaeth i Lywodraeth Cymru dros yr wybodaeth. Mae'r Comisiynydd o'r farn bod hyn yn allweddol i'w phenderfyniad oherwydd dim ond os yw'r awdurdod cyhoeddus yn gallu gweld yr

wybodaeth neu arddel mesur o reolaeth dros yr wybodaeth y bernir bod ‘person arall’ yn dal gwybodaeth ar ran awdurdod cyhoeddus.

24. Yn olaf, nid yw’r llythyr cynnig grant rhwng Llywodraeth Cymru a Phrifysgol Bangor yn cynnwys unrhyw ddarpariaethau sy’n caniatáu i Lywodraeth Cymru gyrchu’r wybodaeth y gofynnwyd amdani, sef copi cyflawn o’r Termiadur Addysg. Y cyfan y mae’r darpariaethau yn y cytundeb yn cyfeirio ato yw gweld gwybodaeth er mwyn i Lywodraeth Cymru fonitro’r gydymffurfiaeth ag amodau’r cyllid grant, sef gwybodaeth ynglŷn â chyfrifydda, incwm a gwariant.

25. Ar sail y dystiolaeth sydd ar gael a’r sylwadau a roddwyd gan Lywodraeth Cymru, mae’r Comisiynydd wedi’i bodloni nad yw’r wybodaeth y gofynnwyd amdani yn cael ei dal gan Lywodraeth Cymru ei hun, ac nad yw’n cael ei dal gan Brifysgol Bangor ar ran Llywodraeth Cymru.

**Adran 10 – amser ar gyfer cydymffurfio**

26. Mae adran 1 o’r Ddeddf yn darparu ar gyfer hawl gyffredinol i weld gwybodaeth sy’n cael ei dal gan awdurdodau cyhoeddus. Mae adran 10(1) yn darparu bod rhaid i awdurdod cyhoeddus gydymffurfio ag adran 1 yn brydlon, a beth bynnag heb fod yn hwyrach na’r ugeinfed diwrnod gwaith yn dilyn y dyddiad y daeth cais am wybodaeth i law.

Yn yr achos hwn cyflwynodd yr achwynydd ei gais am wybodaeth ar 25 Chwefror 2016. Ymatebodd Llywodraeth Cymru o fewn yr amserlen statudol ar 24 Mawrth 2016 gan ddarparu rhywfaint o wybodaeth a oedd yn berthnasol i’r cais, a chadw gwybodaeth arall yn ôl o dan adran 43 o’r Ddeddf. Yn ei hadolygiad mewnol ar 26 Ebrill 2016, cydnabu Llywodraeth Cymru ei bod yn anghywir wrth gadw rhywfaint o wybodaeth a oedd i’w chael yn y ceisiadau am grant yn ôl o dan adran 43, a datgelodd yr wybodaeth honno i’r achwynydd. Wrth fethu cydymffurfio’n llawn ag adran 1(1)(b) o fewn yr amserlen angenrheidiol, fe dorrodd Llywodraeth Cymru adran 10(1) o’r Ddeddf.

## Yr hawl i apelio

27. Mae gan y naill barti a'r llall hawl i apelio yn erbyn yr hysbysiad penderfynu hwn i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf (Hawliau Gwybodaeth). Mae gwybodaeth am y broses apelio ar gael oddi wrth:

    Tribiwnlys yr Haen Gyntaf (Hawliau Gwybodaeth)
    GRC & GRP Tribunals,
    PO Box 9300,
    LEICESTER,
    LE1 8DJ

    Ffôn: 0300 1234504
    Ffacs: 0870 739 5836
    Ebost: GRC@hmcts.gsi.gov.uk
    Gwefan: www.justice.gov.uk/tribunals/general-regulatory-chamber

28. Os hoffech apelio yn erbyn hysbysiad penderfynu, gallwch gael gwybodaeth am sut i apelio ynghyd â'r ffurflenni perthnasol ar wefan y Tribiwnlys Gwybodaeth.

29. Dylai unrhyw Hysbysiad Apelio gael ei gyflwyno i'r Tribiwnlys o fewn 28 diwrnod (calendr) ar ôl dyddiad anfon yr hysbysiad penderfynu hwn.

**Llofnod ……………………………………………………**

**Andrew White**
**Rheolwr Grŵp**
**Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth**
**Wycliffe House**
**Water Lane**
**Wilmslow**
**Cheshire**
**SK9 5AF**